# Cyngor Cymuned Llanycil.
# Cyfarfod Blynyddol.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 16eg 2023 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Jean Roberts, Catrin Roberts, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

i) Croesawu aelod newydd.
Croesawyd Catrin Roberts i'w chyfarfod cyntaf.

ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.
Etholwyd Huw Charles yn gadeirydd a Jean Roberts yn is-gadeirydd.

iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Partneriaeth Penllyn: Jean Roberts.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones, a Catrin Roberts os bydd angen eilydd.

iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.
Adroddiad Blynyddol y Cyngor – cymeradwywyd. Cytunwyd i wahodd CFFI Maesywaen i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned fel rhan o'r Cynllun Bioamrywiaeth eleni.

v) Cyfrifon 2022-23.
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2022-23 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Oherwydd pwysau gwaith nid oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi'r hysbysiad archwilio ar hyn o bryd.

vii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2023/24.
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

viii) Adolygu Asedau.
Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cytunodd y cynghorwyr i archwilio'r llochesi bws ac adrodd yn nôl yn y cyfarfod nesaf.

ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad:……………………..